



Teitl: Title:	Polisi Camymddwyn wrth Asesu Assessment Malpractice Policy
Fersiwn: Version	2
I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol? Who does this Policy Relate to?	Myfyrwyr / Staff / Myfyrwyr a Staff / Arall (rhowch fanylion) Students / Staff / Students and Staff / Other (provide details)

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity

Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link:	Polisi Camymddwyn wrth Asesu Cam 1 EIA Assessment Malpractice Policy Stage 1 EIA
<i>Effaith ar yr Iaith Gymraeg</i> <i>Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.</i>	<i>Welsh Language Impact</i> An impact assessment has been carried out on this policy to consider its effect on the Welsh Language in accordance with the Welsh Language Standards (94-104) and the Welsh Language (Wales) Measure 2011.

Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval

Perchennog y Ddogfen: Document Owner:	<i>Is-Bennaeth - Ansawdd</i> <i>Vice Principal - Quality</i>		
Ymgynghoriad / Consultation:	<i>Drwy'r Tîm Ansawdd</i> <i>Via Quality team.</i>		
Dyddiad cymeradwyo / Date Approved	Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group	<i>Amherthnasol</i> <i>N/A</i>	
	Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant / Communications & Culture Committee:	<i>Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant</i> <i>Comms & Culture Committee</i> <i>04/05/22</i>	
	Pwyllgorau'r Bwrdd / Board Committees:	Pwyllgor Archwilio a Risg / Audit & Risk Committee:	-
		Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau / Curriculum & Standards Committee	-
		Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant / Finance, People & Culture Committee:	-
Corff Llywodraethu / Governing Body:	-		
Dyddiad Adolygu: Review Date:	04/05/25		

1. Cyflwyniad

- 1.1. Mae camymddwyn yn cynnwys y gweithredoedd hynny sy'n tanseilio uniondeb a dilysrwydd asesu, ardystio cymwysterau a/neu niweidio awdurdod y rhai sy'n gyfrifol am gynnal yr asesiad a'r ardystiad. Nid yw'r Coleg yn goddef gweithredoedd (neu ymgais at weithredoedd) o gamymddwyn gan aseswyr.
- 1.2. Gallai'r Coleg osod cosbau a/neu gamau disgyblu ar aseswyr lle mae digwyddiadau (neu ymgais at ddigwyddiadau) o gamymddwyn wedi cael eu profi.

2. Cwmpas

- 2.1. Mae'r polisi hwn yn ymdrin â'r holl addysgu a dysgu ac asesu sy'n gysylltiedig ag addysg bellach, dysgu yn y gwaith a darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned. Mae polisi asesu addysg uwch yn cael ei gynnwys yn y polisi **Apeliadau Academaidd ar gyfer Addysg Uwch**, sy'n cyd-fynd â holl ofynion prifysgolion sy'n bartneriaid..

3. Cyflwyniad

- 3.1. Nod y polisi ar gamymddwyn yw:
 - 3.1.1. Diffinio camymddwyn yng nghyd-destun asesu ac ardystio.
 - 3.1.2. Rhestru hawliau a chyfrifoldebau'r Coleg a'i staff o ran camymddwyn.
- 3.2. Mae er budd myfyrwyr a staff y coleg i'r Coleg ymateb yn effeithiol ac yn agored i bob cais am ymchwiliad i ddigwyddiad o gamymddwyn neu ddigwyddiad lle'r amheuir camymddwyn. Mae'n ofynnol i'r Adran Adnoddau Dynol roi gwybod i staff y coleg am eu hawliau a'u cyfrifoldebau, tra bod yn rhaid i ddysgwyr gael gwybod am eu hawliau a'u cyfrifoldebau gan staff y cwricwlwm.

4. Camymddwyn gan staff coleg

- 4.1. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o gamymddwyn gan staff coleg. Nid yw'r staff yn un gynhwysfawr a gallai'r Coleg ystyried achosion eraill o gamymddwyn yn ôl ei ddisgresiwn:
 - 4.1.1. Cynorthwyo myfyrwyr i gynhyrchu gwaith i'w asesu, pan mae potensial gan y cymorth hwnnw i ddylanwadu ar ganlyniadau asesiad, er enghraifft pan mae staff coleg yn cynhyrchu gwaith ar gyfer y myfyriwr.
 - 4.1.2. Cynhyrchu datganiadau tystion ffug, er enghraifft ar gyfer tystiolaeth nad yw'r myfyriwr wedi'i chynhyrchu.
 - 4.1.3. Caniatáu i dystiolaeth, y gŵyr yr aelod staff nad yw'n dystiolaeth y fyfyriwr ei hun, gael ei chynnwys mewn aseiniad/tasg/portffolio/gwaith cwrs myfyriwr.
 - 4.1.4. Camddefnyddio'r amodau ar gyfer gofynion arbennig myfyrwyr, er enghraifft lle caniateir cymorth i fyfyrwyr, megis ysgrifennydd, caniateir hyn hyd at y pwynt lle mae potensial gan y cymorth i ddylanwadu ar ganlyniad yr asesiad.
 - 4.1.5. Methu cadw ffeiliau cyfrifiadurol myfyrwyr yn ddiogel.
 - 4.1.6. Ffugio cofnodion/tystysgrifau, er enghraifft drwy altro, amnewido, neu drwy dwyll.
 - 4.1.7. Hawliadau tystysgrif twyllodrus, hynny yw hawlio tystysgrif cyn i'r

myfyriwr gwblhau'r holl ofynion asesu.

- 4.1.8. Methu cadw asesiad/arholiad/papurau prawf yn ddiogel cyn yr asesiad/arholiadau/prawf.
- 4.1.9. Cael mynediad heb awdurdod i asesu/archwilio/profi deunydd cyn asesiad/arholiad/prawf.

5. Delio â chamymddwyn

- 5.1. Cyfrifoldeb y Pennaeth, neu enwebai addas, yw cynnal ymchwiliad i honiadau o gamymddwyn. Bydd ymchwiliad i gamymddwyn honedig yn erbyn y Pennaeth fel arfer yn cael ei gynnal gan Gadeirydd Corff Llywodraethu'r Coleg, neu enwebai penodedig. Rhaid rhoi gwybod i'r Pennaeth am y digwyddiad honedig cyn gynted â phosibl. Bydd disgwyl cydweithrediad llawn gan staff y Coleg.
- 5.2. Os yw'r Prifathro'n darganfod neu'n amau unrhyw un o gamymddwyn, rhaid iddynt wneud y cyhuddedig yn gwbl ymwybodol mewn ysgrifen cyn gynted â phosibl o natur y camymddwyn honedig ac o'r canlyniadau posibl pe bai camymddwyn yn cael ei brofi. Os yw aelod o staff yn cyhuddo unrhyw un o gamymddwyn, rhaid i'r Coleg roi cyfle i'r cyhuddedig ymateb yn ysgrifenedig i'r honiadau a wnaed o fewn amserlen benodedig. Rhaid i'r Coleg hefyd roi gwybod i unrhyw un sydd wedi'u cyhuddo o gamymddwyn am y dulliau apelio pe bai dyfarniad yn cael ei wneud yn eu herbyn.
- 5.3. Mae'r Pennaeth yn cadw'r hawl i gael mynediad at unrhyw ddogfennau a gedwir gan staff y coleg mewn perthynas â chamymddwyn honedig. Lle canfyddir bod aelodau o staff wedi camymddwyn, bydd adroddiad yn cael ei baratoi gan y Pennaeth, neu enwebai, a ddylai hefyd gynnwys manylion y camau a gymerwyd gan y Pennaeth neu'r Corff Llywodraethu. Yn ystod y broses hon, gallai fod angen hysbysu'r awdurdodau cyllido neu'r awdurdodau rheoleiddiol. Mae'r Coleg yn cadw'r hawl i hysbysu'r heddlu mewn rhai achosion difrifol o gamymddwyn.

6. Cosbau wedi'u rhoi gan y coleg

- 6.1. Os profir fod aelod o staff wedi camymddwyn, bydd yn rhaid i'r coleg ystyried a allai uniondeb ei asesiadau/arholiadau/profion gael eu peryglu pe bai'r aelod o staff dan sylw yn cymryd rhan mewn asesiadau, arholiadau neu brofion yn y dyfodol. Bydd y Coleg yn cymryd camau i ddiogelu uniondeb ei asesiadau, arholiadau neu brofion yn y dyfodol. Gallai'r camau hyn gynnwys:
 - 6.1.1. Y Coleg yn gwrthod derbyn asesiadau/cofnodion arholiadau heb eu dilysu gan asesydd mewn achosion lle mae camymddwyn yn cael ei brofi.

- 6.1.2. Y Coleg yn cadw'r hawl i weithredu mesurau disgyblu yn erbyn asesydd mewn achosion lle mae camymddwyn wedi cael ei brofi, yn unol â gweithdrefn Ddisgyblu Staff y Coleg.
- 6.1.3. Y Coleg yn cadw'r hawl i atal/terfynu cyflogaeth asesydd mewn achosion lle mae camymddwyn wedi cael ei brofi, yn unol â gweithdrefn Ddisgyblu Staff y Coleg.
- 6.2. Lle nad yw canymddwyn gan aelod o staff yn cael ei brofi, ond lle codir amheuaeth ynghylch cymhwysedd galwedigaethol yr aelod o staff dan sylw, mae'r Coleg yn cadw'r hawl i weithredu hyfforddiant ychwanegol, cymorth a/neu fesurau monitro, yn unol â gweithdrefn Galluogrwydd y Coleg.

7. Apeliadau

- 7.1. Mae'r Coleg wedi sefydlu gweithdrefnau ar gyfer aseswyr sy'n ystyried apeliadau yn erbyn cosbau a sancsiynau sy'n deillio o gamymddwyn. Fel arfer, dim ond gan aelodau unigol o **centre staff** (mewn perthynas â phenderfyniad a wnaed yn eu herbyn yn bersonol) y bydd apeliadau yn erbyn penderfyniad a wnaed gan y Coleg yn cael eu derbyn. Gall yr apêl hon gael ei chefnogi'n ysgrifenedig gan eu rheolwr atebol, neu reolwr cwricwlwm cymeradwy arall, os yn berthnasol.